Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 18 Gorffennaf 2012**

Amser:
**09:00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Siân Phipps**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8582
pwyllgor.menter@cymru.gov.uk

## Agenda

**Cyfarfod anffurfiol preifat (09:00 - 09:45)**

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Sesiwn craffu ariannol canol blwyddyn gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (9.45 - 10.45) (Tudalennau 1 - 39)

Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Jeff Cuthbert AC, y Dirprwy Weinidog Sgiliau

Owen Evans, Cyfarwyddwr - Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

Carla Lyne, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol

### 3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod (10.45)

### 4. Papur cwmpasu ar Drafnidiaeth Gyhoeddus Integredig (10.45 - 11.30) (Tudalennau 40 - 45)

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**

**Dyddiad** **18 Gorffennaf 2012**

**Lleoliad** **Y Senedd**

**Teitl** **Sesiwn graffu ariannol a gynhelir yn ystod y flwyddyn**

## Pwrpas

1. Darparu papur tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor Menter a Busnes, sy’n rhoi:

   a) sylwebaeth ar y cynnydd a wnaed yn erbyn ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu sy’n berthnasol i feysydd portffolio’r Pwyllgor (addysg uwch; sgiliau a dysgu gydol oes; pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

   b) y diweddaraf am bryderon rhif 2, 3 a 4, a nodwyd yn llythyr y Cadeirydd, dyddiedig 26 Hydref 2011, at y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar ôl iddo ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 12 Hydref 2011.

   c) crynodeb o gyllideb atodol gyntaf 2012-13.

## Yr Amseru

2. Sesiwn yn ystod y flwyddyn yw’r sesiwn graffu ariannol hon ar gyllideb derfynol 2012-13.

## Y cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu

3. Mae’r Rhaglen Lywodraethu’n nodi’r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud i wella bywydau pobl Cymru, a sut y byddwn yn mesur cynnydd. Mae’r adroddiad cynnydd cyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2012, yn disgrifio ein perfformiad fesul cam gweithredu.

4. Mae’r adroddiad yn cynnwys holl fanylion diweddaraf y cynnydd a wnaed yn erbyn yr ymrwymiadau a nodir yn ein Rhaglen. Mae’n cynnwys yr holl ddata sydd ar gael ar gyfer y dangosyddion sy’n mesur i ba raddau y mae ein rhaglen yn cael ei chyflawni a hefyd ar gyfer y dangosyddion sy’n rhoi gwybodaeth am y prif ganlyniadau. Data blynyddol yw llawer ohonynt, ac felly, o reidrwydd, nid yw manylion y cynnydd a wneir gan y Llywodraeth yn gwbl gyfredol.

5. Mae’r Adran Addysg a Sgiliau yn cyfrannu at nifer o feysydd yn y Rhaglen Lywodraethu, ond y prif feysydd yw Twf a Swyddi Cynaliadwy, Addysg, Tlodi, ynghyd â Diwylliant a Threftadaeth Cymru.

6. Ers 1999, mae canran yr oedolion o oedran gweithio sy'n meddu ar gymwysterau hyd at lefel 2 ac yn uwch, a hyd at lefel 3 ac yn uwch, wedi cynyddu'n gynt yng Nghymru nag yn unrhyw wlad arall yn y DU. Ond, gan fod Cymru'n adeiladu ar ganran isel i ddechrau, mae'r ganran sy'n meddu ar gymwysterau hyd at y ddwy lefel hyn yn parhau'n is nag yn Lloegr a'r Alban. Mae canran y bobl ifanc 16-18 oed ac 19-24 oed, nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, hefyd yn parhau'n her wirioneddol.

7. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafodd Twf Swyddi Cymru ei threialu'n llwyddiannus, gyda'r rhaglen yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2012. Cafodd Sgiliau Twf Cymru ei ehangu ym mis Ionawr 2012, sef rhaglen sy'n helpu busnesau sy'n tyfu mewn sectorau allweddol o flaenoriaeth i wella sgiliau eu gweithlu, gan eu helpu hefyd i greu cyfleoedd gwaith newydd. Yn ogystal, ehangwyd y Rhaglen Recriwtiaid Ifanc, a chafodd y targed gwreiddiol o 1,000 ei ddyblu bron a bod, wrth i'r rhaglen gael 1,995 o geisiadau am gymorth uniongyrchol gan gyflogwyr. Cyflwynwyd y Rhaglen Hyfforddiaethau a'r Rhaglen Camau at Waith, sy'n rhaglenni ar gyfer pobl ifanc ac oedolion, ym mis Awst 2011; a thrwy lansio Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle ym mis Chwefror 2012, cafodd y cymorth i oedolion i ddysgu sgiliau sylfaenol ei ailfodelu. Rydym yn defnyddio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth 2011-15 i ennyn diddordeb pobl ifanc mewn dysgu ac mae'r Adolygiad o Gymwysterau yn mynd rhagddo gyda'r weledigaeth o gynnig cymwysterau sy'n diwallu anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru.

8. O ran Addysg Bellach, mae pedwar sefydliad wedi eu cyfuno gan greu dau sefydliad mwy o faint, ac mae rhagor o gynlluniau cyfuno ar y gweill. Cynyddu y mae'r cyfraddau ar gyfer myfyrwyr ôl-16 sy'n aros ymlaen, a bydd y cynnydd yn y niferoedd sy'n llwyddo mewn Addysg Bellach yn helpu i wella cyraeddiadau myfyrwyr 19 oed.

9. O ran Addysg Uwch, nid oes yr un myfyriwr sy'n wynebu cynnydd mewn ffïoedd dysgu, ac mae gan holl brifysgolion Cymru gynlluniau ar gyfer sicrhau bod addysg ar gael i fwy o bobl a bod profiad myfyrwyr yn cael ei wella. Mae'r gwaith o ddiwygio'r sector Addysg Uwch yn mynd rhagddo.

10. Dywedodd y Pwyllgor y byddai ganddynt ddiddordeb arbennig yn yr ymrwymiadau hynny a nodwyd yn flaenoriaeth adeg Cyllideb Ddrafft y Llywodraeth 2012-2013. Mae blaenoriaethau'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau, sy'n berthnasol i'r Pwyllgor, yn cael eu nodi isod. Nodir yr wybodaeth ddiweddaraf yn erbyn holl ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu sy'n berthnasol i bortffolio'r Pwyllgor yn Atodiad 1.

*Twf Swyddi Cymru*

11. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai 'Twf Swyddi Cymru' yn cael ei sefydlu ym mis Hydref 2011, a chreodd y peilot gwreiddiol 110 o swyddi. Cafodd rhaglen lawn Twf Swyddi Cymru ei lansio ar 3 Ebrill 2012, a'r nod yw creu 4,000 o gyfleoedd gwaith bob blwyddyn ar gyfer pobl ifanc ddi-

waith 16-24 oed ledled Cymru, gan roi profiad gwaith iddynt am gyfnod o 6 mis.

*ReAct / Adapt*

12. Profwyd bod pecyn cymorth ReAct yn gwella'r tebygolrwydd o gryn dipyn y bydd gweithwyr sydd wedi'u diswyddo yn cael swydd arall yn gyflym. Mae arolwg o hynt y rheini sy'n gadael ReAct yn cadarnhau hynny, ac yn dangos bod tua 76% o'r bobl sydd wedi manteisio ar y rhaglen wedi dod o hyd i swydd newydd erbyn iddynt ymateb i'r arolwg.

13. Mae gweithgarwch Adapt, ddechrau'r flwyddyn, yn parhau'n isel er gwaethaf cynnal nifer o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth. Hyd yn hyn, mae llawer o'r bobl sydd wedi gadael y sector cyhoeddus wedi gwneud hynny o'u gwirfodd ac nid oes angen y pecyn cymorth arnynt.

*Llwybrau at Brentisiaethau*

14. Yn ystod 2011-2012, comisiynodd Llywodraeth Cymru 2,000 o leoedd ar y rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau (37% ohonynt yn y De, 33% yn y Gogledd a 30% yn y De-orllewin a'r Canolbarth). Bydd y ffigurau ar gyfer nifer y dysgwyr a gwblhaodd  y rhaglen hon, gan ymuno wedyn â rhaglen brentisiaeth lawn, yn cael eu cyhoeddi yn nes ymlaen yn y flwyddyn pan ddaw'r data perthnasol i law.

*Diwygio Llywodraethu a Chyllido Ôl-16*

15. Roedd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn derbyn 40 o'r 41 o argymhellion a wnaed yn adroddiad Humphreys ar gyfer diwygio Llywodraethu Addysg Bellach yng Nghymru. Roedd yr argymhellion yn yr adolygiad hwn yn cynnwys sefydlu Cyrff Aelodaeth ar gyfer pob coleg, a fyddai'n cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid o wahanol rannau o'r gymuned i herio'r cyrff llywodraethu. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â CholegauCymru, y corff sy'n cynrychioli'r sector, er mwyn hybu'r gwaith o ddiwygio llywodraethu.

16. Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu dyraniadau cyllid dangosol tair blynedd ar gyfer 2011/12 i 2013/14. Mae amlder dyraniadau cyllid yn y dyfodol wedi'i gynnwys yn yr Adolygiad Cynllunio a Chyllido Ôl-16 a fydd yn cyflwyno adroddiad interim i Weinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2012 i helpu i lywio'r trefniadau cyllido yn y dyfodol.

*Diwygio llywodraethu a strwythur Addysg Uwch*

17. Cyflwynir dull gweithredu gam wrth gam i wneud diwygiadau i Addysg Uwch, gan gynnal ymgynghoriad cychwynnol a fydd yn canolbwyntio ar y newidiadau i ddeddfwriaeth y mae eu hangen i sicrhau bod dulliau priodol yn eu lle i reoleiddio darpariaeth Addysg Uwch yng Nghymru o dan drefniadau cyllido newydd. Bydd y newidiadau i ddulliau llywodraethu yn

cael eu hailystyried yn nes ymlaen, ac fe'u datblygir ar ôl cynnal ymgynghoriad ar wahân yn 2013/14.

18. Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddwyd ymateb y Gweinidog Addysg a Sgiliau i'r cynigion ad-drefnu a wnaed gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), ac a nodwyd yn ei adroddiad ar strwythur prifysgolion Cymru yn y dyfodol. Crëwyd panel gan Lywodraeth Cymru i adolygu patrwm darpariaeth Addysg Uwch yn y Gogledd-ddwyrain, gyda'r nod o roi adroddiad, sy'n cynnwys argymhellion, i'r Gweinidog erbyn mis Ebrill 2013. Mae'r Gweinidog wedi cynnal trafodaethau gyda'r sefydliadau hynny a fydd yn teimlo effaith y cynigion ad-drefnu a wneir gan CCAUC ar gyfer y De-ddwyrain. Os ydym am gyflawni'r targed hwn yn llawn, rhaid gweithredu'r agenda ad-drefnu dros y ddwy flynedd nesaf.

*Cynnal lefelau'r cymorth ariannol a roddir i gartrefi incwm isel*

19. Mae'r holl ymgeiswyr cymwys am Grantiau Dysgu'r Cynulliad wedi cael y cymorth priodol yn ystod y flwyddyn.

20. Cynhaliwyd lwfansau cynhaliaeth addysg Llywodraeth Cymru drwy gydol 2011-12.

**Y diweddaraf am ffïoedd Addysg Uwch**

21. Mae'r Polisi Cyllido Myfyrwyr yn seiliedig ar fodel ariannol soffistigedig sy'n ystyried y cyllid presennol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru, yn ogystal â ffynonellau incwm eraill sefydliadau megis ffïoedd dysgu. Mae'r model yn seiliedig ar amrediad o lefelau ffïoedd y mae pob un ohonynt yn fforddiadwy. Mae rhai pethau'n parhau yn ansicr, fel y newidiadau posibl yn y llif trawsffiniol, ond mae swyddogion yn dal i fonitro'r sefyllfa'n ofalus. Mae'r cynlluniau wrth gefn, sydd yn eu lle, yn briodol ac yn ddigonol.

22. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl rhoi gwybodaeth fwy diweddar am y sefyllfa. Nid yw'r data a ddarperir gan UCAS ond yn nodi nifer y ceisiadau i brifysgolion, nid yw'n dangos nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru mewn gwirionedd ym mhob sefydliad. Bydd gwybodaeth lawer manylach am y llif trawsffiniol, lefelau ffïoedd ac ymddygiad myfyrwyr ar gael o fis Medi, pan fydd y flwyddyn academaidd newydd yn dechrau. Bryd hynny, bydd yn bosibl cael data am y myfyrwyr sydd wedi cofrestru mewn gwirionedd. Ar ôl i'r wybodaeth hon ddod i law, bydd swyddogion yn cynnal adolygiad o dybiaethau ac amcangyfrifon ar sail y model ariannol a ddefnyddir ar gyfer y sector Addysg Uwch, a'i effaith ar gyllidebau Llywodraeth Cymru.

23. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod trefniadau astudio rhan-amser yn cynnig hyblygrwydd i fyfyrwyr na fyddent fel arall yn gallu manteisio ar y cyfle i gael addysg uwch. Mae llwyddiant ein bwriad i sicrhau bod addysg uwch ar gael yn hawdd i fwy o bobl a bod ganddynt fwy o gyfleoedd, yn

dibynnu i raddau helaeth ar y trefniadau rhan-amser sy'n cael eu darparu. Rydym felly'n awyddus i greu diddordeb mewn addysg ran-amser fel y trefniadau astudio a ffefrir.

24. Mewn llythyr dyddiedig 31 Mai 2012, cadarnhawyd wrth Gadeirydd CCAUC bod addysg uwch ran-amser yng Nghymru yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, a'n bod yn disgwyl i CCAUC ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer darpariaeth ran-amser yng Nghymru.

25. Gofynnwyd yn benodol i'r Cyngor ymchwilio i ddulliau gweithredu arloesol mewn perthynas â'r materion canlynol:

- sut i ennyn diddordeb mewn astudio'n rhan-amser o ran cyrsiau ôl-radd, cyrsiau a arweinir gan gyflogwyr, a chyrsiau byr;
- sut i hyrwyddo cyrsiau rhan-amser er mwyn manteisio ar y cyfleoedd sy'n codi yn sgil cyflwyno pecyn cymorth newydd ar gyfer addysg ran-amser;
- dod o hyd i fodelau eraill ar gyfer darparu addysg ran-amser;
- sicrhau eglurder o ran cynlluniau cyllido CCAUC o ran addysg ran-amser yn y dyfodol, gan sicrhau hefyd fod rhanddeiliaid yn gwybod am unrhyw drefniadau;
- hyrwyddo'r arferion gorau.

26. Bydd y darpariaethau cymorth i fyfyrwyr, sydd wedi'u cyhoeddi, yn golygu y bydd rhywfaint o'r ddarpariaeth ran-amser y tu allan i gwmpas y system cymorth statudol. Crëwyd gweithgor i fwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu'r newidiadau i'r system cymorth i fyfyrwyr rhan-amser ac i ystyried unrhyw ddatblygiadau pellach a allai fod yn angenrheidiol i gynnal sector Addysg Uwch rhan-amser cadarn yn unol â'r strategaeth Er Mwyn Ein Dyfodol. Yn benodol, mae'r grŵp yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y newidiadau i'r cymorth a gynigir i fyfyrwyr rhan-amser, a hefyd unrhyw ddulliau eraill y gellid eu defnyddio i gyllido cyrsiau Addysg Uwch rhan-amser sy'n cael eu hastudio ar ddwyster o lai na 25%.

27. Ni chynhaliwyd unrhyw asesiadau pellach o'r goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru a fyddai'n deillio o'r ffaith bod myfyrwyr o rannau eraill o Ewrop yn astudio yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU. Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw asesiadau yn y dyfodol.

**Cyllideb Atodol 2012-13**

28. Ar 6 Rhagfyr 2011, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gyllideb Derfynol 2012-13 Llywodraeth Cymru. Mae Deddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adlewyrchu'r newidiadau a wnaed ers y gyllideb gymeradwy ddiwethaf, a hynny trwy baratoi cyllideb atodol.

29. Rhagwelir y bydd dwy gyllideb atodol yn cael eu cyhoeddi yn 2012-13. Cafodd y gyntaf ei gosod ar 26 Mehefin a disgwylir i'r ail gael ei chyhoeddi rywbryd tua diwedd y flwyddyn ariannol.

30. Mae'r gyllideb atodol gyntaf yn adlewyrchu'n bennaf newidiadau i gyllidebau yn unol â datganiadau blaenorol a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Ar y cyfan, mae'n dechnegol ei natur, ond mae hefyd yn cynnwys nifer o ddyraniadau o'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r newidiadau ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau yn cael eu dangos yn Nhabl 1 isod.

*Tabl 1: Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau*

| DEL | £000au Adnodd 2012-13 | | | £000au Cyfalaf 2012-13 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb[1] | Newidiadau | Y Gyllideb Ddiwygiedig | Cyllideb[1] | Newidiadau | Y Gyllideb Ddiwygiedig |
| Safonau Addysg a Hyfforddiant | 1,165,476 | 1,485 | 1,166,961 | 161,243 | 17,050 | 178,293 |
| Gweithlu Medrus | 89,669 | -20 | 89,649 | 0 | 0 | 0 |
| Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb | 390,762 | -10 | 390,752 | 0 | 0 | 0 |
| Yr Iaith Gymraeg | 26,355 | -1,379 | 24,976 | 100 | -100 | 0 |
| Cymorth Cyflawni | 3,148 | 1,043 | 4,191 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm DEL** | **1,675,410** | **1,119** | **1,676,529** | **161,343** | **16,950** | **178,293** |
| **AME** | | | | | | |
| Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb | -99,893 | 10,860 | -89,033 | 250,418 | 16,924 | 267,342 |
| **Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)** | **1,575,517** | **11,979** | **1,587,496** | **411,761** | **33,874** | **445,635** |

31. Yn gyffredinol, bu cynnydd net o £18,069k yn DEL Addysg a Sgiliau, a oedd yn cynnwys cynnydd yn yr adnodd o £1,119k (0.07%) a chynnydd mewn cyfalaf o £16,950k (10.5%).

32. Mae cyllideb yr AME wedi cynyddu £27,784k, sy'n golygu cynnydd mewn cyfalaf o £16,924k a chynnydd yn yr adnodd o £10,860k, i adlewyrchu'r rhagamcanion diweddaraf o ran benthyciadau i fyfyrwyr.

33. Mae cyllideb atodol 2012-13 ar gyfer y camau gweithredu yn cael ei nodi yn Atodiad 2, a hefyd rhoddir dadansoddiad cyllidebol manwl o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb yn Atodiad 3.

34. Rhoddir crynodeb isod o'r newidiadau yng nghyllideb atodol gyntaf 2012-13 ar lefel y camau gweithredu.

[1] Ffigurau'r Cynnig Cyllidebol Terfynol, fel y'i cymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2011.

***Safonau Addysg a Hyfforddiant – Codi safonau'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant a'i seilwaith ledled Cymru, fel y gall pawb wireddu ei botensial***

**Newidiadau i'r cyllid o fewn Portffolio'r Pwyllgor Menter a Busnes**

<u>Camau Gweithredu ar Addysg Uwch – Prif Grŵp Gwariant i Brif Grŵp Gwariant</u>

35. Cafodd £2,051k ei drosglwyddo o'r Camau Gweithredu ar Gefnogi Addysg a Hyfforddiant ar gyfer Gweithlu'r GIG ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, er mwyn talu i Brifysgol Caerdydd gynnal hyfforddiant meddygol a deintyddol, gan fod y myfyrwyr wedi trosglwyddo i raglen mynediad i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe, sy'n cael ei chyllido trwy CCAUC.

<u>Camau Gweithredu ar Gymwysterau / Camau Gweithredu ar Addysg Ôl-16 – o fewn y Prif Grŵp Gwariant</u>

36. Cafodd £4,700k ei drosglwyddo o'r Camau Gweithredu ar Gymwysterau i'r Camau Gweithredu ar Addysg Ôl-16, i ddarparu dysgu seiliedig ar waith o dan Fagloriaeth Cymru, sef trosglwyddiad gweinyddol a fydd yn cael ei ymgorffori yn y Camau Gweithredu ar Addysg Ôl-16 o 2013-14 ymlaen.

**Newidiadau i gyfalaf o fewn Portffolio'r Pwyllgor Menter a Busnes**

<u>Camau Gweithredu ar yr Ystâd a'r Ddarpariaeth TG</u>

37. Mae'r adran wedi cael £8,000k o'r cronfeydd wrth gefn fel rhan o'r pecyn buddsoddi cyfalaf i hybu twf a swyddi a gyhoeddwyd ym mis Mai. Mae'n cynnwys £5,000k ar gyfer cyflymu prosiectau pontio Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif, a £3,000k ar gyfer Campws Ôl-16 Canol Dinas Caerdydd Coleg Caerdydd a'r Fro.

**Newidiadau i adnoddau o fewn Portffolios Pwyllgorau eraill**

<u>Camau Gweithredu ar y Grant Amddifadedd Disgyblion – o'r cronfeydd wrth gefn</u>

38. Cafodd £393k ei drosglwyddo o'r cronfeydd wrth gefn i'r Camau Gweithredu ar y Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn cynnwys plant cymwys mewn ysgolion arbennig o dan y trefniadau ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae hynny'n ychwanegol at yr £20m a drosglwyddwyd yng nghyllideb derfynol 2012-13.

<u>Camau Gweithredu ar y Cwricwlwm – o fewn y Prif Grŵp Gwariant</u>

39. £693k at y Camau Gweithredu ar Gymorth Cyflawni ar gyfer y Rhaglen Addysg Ryngwladol sy'n gysylltiedig â CILT, y Ganolfan Wybodaeth ac Ymchwil ar Ddysgu Ieithoedd.

**Newidiadau i gyfalaf o fewn Portffolios Pwyllgorau eraill**

40. Mae'r Adran wedi gwneud cais llwyddiannus am £8,950k o Gyfalaf a Gedwir yn Ganolog o'r cronfeydd wrth gefn. Mae'n cynnwys £1,950k ar gyfer prosiect Porth y Cymoedd a fydd yn sefydlu ysgol newydd yn Nhon-du ac yn ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg uwchradd yn yr ardal, a hefyd £7,000k ar gyfer ad-drefnu'r ystâd ysgolion uwchradd yn Sir Gaerfyrddin.

***Gweithlu Medrus – Sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau priodol, a bod cyfleoedd o ansawdd uchel ar gael i'r holl ddysgwyr***

41. Ni fu unrhyw drosglwyddiadau sylweddol i faes y Rhaglen Wariant hon nac ohoni.

***Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb – Helpu unigolion, teuluoedd, cymunedau a busnesau er mwyn gwella lles economaidd a chymdeithasol a lleihau anghydraddoldeb trwy addysg a hyfforddiant***

**Newidiadau i AME o fewn Portffolio'r Pwyllgor Menter a Sgiliau**

<u>Camau Gweithredu ar Gyfalaf a Refeniw Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16</u>

42. Mae'r gyllideb AME (Gwariant a Reolir yn Flynyddol) wedi cynyddu £27,784k, sef cynnydd mewn cyfalaf o £16,924k a chynnydd mewn adnodd o £10,860k, er mwyn adlewyrchu'r rhagamcanion diweddaraf mewn perthynas â benthyciadau i fyfyrwyr. Mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw ac mae'n sensitif o ran cyfraddau llog a ffactorau macro-economaidd eraill.

***Yr Iaith Gymraeg - Gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru***

**Newidiadau i adnoddau o fewn Portffolios Pwyllgorau eraill**

<u>Camau Gweithredu ar yr Iaith Gymraeg (Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynt) – Prif Grŵp Gwariant i Brif Grŵp Gwariant</u>

43. Cafodd £1,325k ei drosglwyddo i Brif Grŵp Gwariant y Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu er mwyn talu cyflogau a chostau cysylltiedig y staff a drosglwyddodd i Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2012, ar ôl i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ddod i ben.

<u>Camau Gweithredu ar y Gymraeg mewn Addysg / Camau Gweithredu ar yr Iaith Gymraeg – o fewn y Prif Grŵp Gwariant</u>

44. Bellach, Uned y Gymraeg mewn Addysg sy'n rheoli grantiau'r Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd ac Athrawon Bro, a chafodd £4,035k ei drosglwyddo o'r Camau Gweithredu ar yr Iaith Gymraeg.

***Cymorth Cyflawni – Bod yn adran sy'n perfformio i safon uchel ac yn gyflogwr o ddewis.***

**Newidiadau i adnoddau o fewn Portffolio'r Pwyllgor Menter a Busnes**

<u>Camau Gweithredu ar Gymorth Cyflawni – o fewn y Prif Grŵp Gwariant</u>

45. Cyfanswm y trosglwyddiad i mewn yw £1,043k o wahanol Gamau Gweithredu ar ôl i'n holl waith rhyngwladol gael ei gyfuno'n un Rhaglen Addysg Ryngwladol. Y trosglwyddiad mwyaf yw £693k o'r Camau Gweithredu ar y Cwricwlwm sy'n gysylltiedig â CILT, y Ganolfan Wybodaeth ac Ymchwil ar Ddysgu Ieithoedd.

**Cyllideb 2013-14**

46. Cyhoeddir Cyllideb Ddrafft 2013-14 ym mis Hydref, a Chyllideb Derfynol 2013-14 ym mis Tachwedd. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n paratoi ar gyfer y gyllideb hon trwy adolygu ein hymrwymiadau, a hefyd ailflaenoriaethu'r cyllid, lle bo hynny'n angenrheidiol, er mwyn sicrhau bod cynlluniau gwario'r Adran yn parhau i fod yn unol â'r ymgyrch i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu.

**Crynodeb**

47. Cyflwynir sylwebaeth ar ymrwymiadau Addysg a Sgiliau'r Rhaglen Lywodraethu, y diweddaraf am y pryderon a godwyd ynghylch ffïoedd dysgu Addysg Uwch, a Chyllideb Atodol gyntaf Addysg a Sgiliau 2012-13 i'r Pwyllgor, iddo eu hystyried.

| Rhif | Ymrwymiad | Yr Adran sy'n Arwain | 2011-12 | 2012-13 | 2013-16 | Hynt y gwaith hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **PENNOD 1: Twf a swyddi cynaliadwy** | | | | | |
| | Yn dilyn adolygiad o weithgareddau i helpu pobl nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, canolbwyntio adnoddau ar yr ymyriadau mwyaf effeithiol. | AdAS | P | P | G | Mae Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid 2011-2015 yn gosod allan rhai o'r prif fesurau fydd yn cael eu rhoi ar waith i rwystro pobl ifanc rhag ymddieithrio oddi wrth ddysgu ac i'w helpu i ymuno â'r farchnad lafur.<br><br>Bydd adolygu ac ad-drefnu ffrydiau ariannu sy'n helpu'r bobl ifanc nad ydynt, neu sydd mewn perygl o beidio â bod, mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) yn helpu i ganolbwyntio'r adnoddau ar yr ymyriadau mwyaf llwyddiannus, gan gynnwys rhaglenni ataliol yn gynharach ym mywyd yr unigolyn. Cafodd Is-adran Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid ei chreu o fewn Llywodraeth Cymru yn 2012-13 i ddod â meysydd polisi ynghyd sy'n allweddol i leihau canran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (neu sy'n debygol o fod felly). Cynhelir yr adolygiad gan yr Is-adran newydd hon unwaith y bydd wedi'i sefydlu'n llawn, fel rhan o fframwaith ehangach. |

P = gwaith paratoi　　G = gweithredu
C = cwblhawyd　　GD = gweithgaredd yn dibynnu ar ganlyniad y cam cyntaf

| Rhif | Ymrwymiad | Yr Adran sy'n Arwain | 2011-12 | 2012-13 | 2013-16 | Hynt y gwaith hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Darparu gwybodaeth drylwyr am y farchnad lafur i helpu unigolion i wneud penderfyniadau gwybodus am y ddarpariaeth addysg. | AdAS | P | P | G | Anfonwyd adroddiad ar Arolwg Sgiliau Cyflogwyr y DU at randdeiliaid ym mis Mai. Caiff mwy o adroddiadau rhanbarthol eu hanfon wrth iddynt gael eu llunio.<br><br>Mae Uned Wybodaeth Llywodraeth Cymru am y Farchnad Lafur yn treialu rhoi'r holl wybodaeth am gyrsiau addysg a swyddi gweigion mewn un lle, ar wefan Gyrfa Cymru.<br><br>Mae astudiaeth gwmpasu'n edrych ar system fyddai'n gallu rhoi gwybodaeth am gyfleoedd gwaith i unigolion sy'n chwilio am lwybr addysg neu yrfa penodol. Ei nod fydd llunio dangosyddion cryno, fesul grwˆ p galwedigaethol, o'r tebygolrwydd o gael gwaith. Ar hyn o bryd mae'r data yn cael eu gwerthuso i weld pa mor addas y maent, gyda'r bwriad o gynnal cynllun peilot o Fedi 2012. |
| | Gwerthuso'r gweithgarwch sgiliau sylfaenol ôl-16 cyfredol a diffinio polisi i ddylanwadu ar yr hyn a ddarperir yn y dyfodol. | AdAS | P | P | GD | Mae gwaith ymchwil wedi'i gomisiynu i werthuso sgiliau sylfaenol ôl-16 yn ystod 2012. Bydd yr ymchwil yn ein helpu i lunio polisi ehangach ar ddysgu sgiliau sylfaenol ym mhob rhan o'r system addysg ac yn ystyried y cysylltiadau posibl â thangyflawni a diweithdra yn ddiweddarach mewn bywyd. |

P = gwaith paratoi G = gweithredu 
C = cwblhawyd GD = gweithgaredd yn dibynnu ar ganlyniad y cam cyntaf

| Rhif | Ymrwymiad | Yr Adran sy'n Arwain | 2011-12 | 2012-13 | 2013-16 | Hynt y gwaith hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1/002** | Byddwn yn mynd i'r afael â diweithdra ymysg ieuenctid trwy greu cronfa swyddi a hyfforddiant i bobl ifanc ac yn ymestyn cyfleoedd am brentisiaethau ar gyfer pobl ifanc.<br>Sefydlu Cronfa Swyddi Cymru yn cynnig cyflogaeth neu hyfforddiant ar gyfer ein pobl ifanc. | AdAS | P | G | G/C | Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn creu Twf Swyddi Cymru ym mis Hydref 2011 ac mae'r peilot cychwynnol wedi creu 110 o swyddi. Lansiwyd y rhaglen lawn ar 3 Ebrill 2012 a'r bwriad yw iddi greu 4,000 o gyfleoedd gwaith bob blwyddyn i bobl ifanc ddi-waith ledled Cymru, 16-24 oed, gan roi profiad gwaith iddynt am gyfnodau o 6 mis.<br><br>**Ar gyfer Prentisiaethau gweler 1/038 isod.** |
| **1/006** | Parhau i ddatblygu cysylltiadau cryf â'n cwmnïau angori a datblygu perthynas strategol, gefnogol/buddiol ar y ddwy ochr gyda'r cwmnïau allweddol hyn, a'u sefydlu yn economi Cymru trwy ddatblygu cysylltiadau agos â'n sefydliadau addysg bellach ac uwch a chynyddu cyfleoedd y gadwyn gyflenwi i'r eithaf. | BETS ac AdAS | G | G | G/C | Mae Adran Addysg a Sgiliau ac Adran Busnes, Menter a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n glos i ddatblygu cysylltiadau rhwng addysg a diwydiant. Mae hi bellach yn ofyn ar ddarparwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru i feithrin cysylltiadau â busnesau a diwydiant. Mae Llywodraeth Cymru yn elwa ar gymorth ac arbenigedd unigolion o gwmnïau angori o Gymru ar grwpiau adolygu addysgol amrywiol Llywodraeth Cymru i wneud yn siwr bod datblygiadau addysgol yn y dyfodol yn ateb gofynion busnesau a diwydiant Cymru.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i sicrhau bod mecanweithiau cymorth yn ateb anghenion cwmnïau trwy ein Rhaglen Datblygu'r Gweithlu sy'n cyllido hyfforddiant sy'n helpu busnesau i dyfu a datblygu. Mae lefel y nawdd a roddir yn cyfateb i'r elw a geir o'r buddsoddiad a'r effaith economaidd debygol ar yr ardal, y rhanbarth neu'r wlad. Yn 2011-12, cafodd 122 o gwmnïau o Gymru eu helpu drwy Raglen Datblygu'r Gweithlu. |

P = gwaith paratoi    G = gweithredu
C = cwblhawyd    GD = gweithgaredd yn dibynnu ar ganlyniad y cam cyntaf

| Rhif | Ymrwymiad | Yr Adran sy'n Arwain | 2011-12 | 2012-13 | 2013-16 | Hynt y gwaith hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1/015** | Cefnogi buddsoddi mewn hyfforddiant a rheolaeth staff er mwyn cynnal diwydiant [twristiaeth] o ansawdd uchel. | BETS ac AdAS | G | G | G/C | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithwyr a chyflogwyr trwy'r Rhwydwaith Datblygu Rhagoriaeth mewn Lletygarwch. Mae 460 o'r 528 a gymerodd ran wedi ennill cymhwyster, gan ragori ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-12. Fodd bynnag, mae nifer y cyflogwyr a gafodd eu helpu (67) yn is na'r disgwyl gwreiddiol oherwydd, tuag at ddiwedd y prosiect, cyflogwyr mawr oedd y rhan fwyaf o'r rheini oedd wedi dewis cymryd rhan.<br><br>Yn ddiweddar cynhaliwyd gweithdy allanol ar Gronfa Beilot ar gyfer Blaenoriaethau'r Sector, ac mae Eiriolwr y Sector yn gweithio gyda People 1st i ddatblygu prosiect i fynd i'r afael â sgiliau a hyfforddiant ym maes Twristiaeth. Mae trafodaethau ar y gweill gyda phanel cyflogwyr People 1st i nodi'r prif flaenoriaethau. Mae panel sector BETS yn canolbwyntio ar adnewyddu ei Strategaeth Dwristiaeth i Gymru a chaiff materion penodol yn ymwneud â sgiliau eu hystyried yn yr hydref.<br><br>Bellach mae twristiaeth wedi'i ddynodi'n 'sector â blaenoriaeth', ac rydym wedi annog y rhwydwaith Cynghorwyr Datblygu Adnoddau Dynol i ddod o hyd i fusnesau yn y sector hwn a fyddai'n elwa ar ddatblygu staff a chymorth hyfforddiant. |
| **1/033** | Cyflwyno olynydd i'r rhaglen Adeiladu Sgiliau a fydd yn cynnig mwy o gymorth, yn cynnwys hyfforddiant 'cyfranogiad' lefel mynediad ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu'r rhwystrau gwaethaf i gyflogaeth. | AdAS | P/G | G | G/C | Cyflwynwyd Rhaglen Hyfforddiaethau Llywodraeth Cymru ar 1 Awst 2011 ac mae wedi'i anelu at bobl ifanc ddi-waith 16-18 oed. Mae'r rhaglen yn cynnig tri llwybr:<br>• Opsiwn hyfforddi 'Cyfranogiad' ar y lefel mynediad, i ddysgwyr y mae gofyn iddynt gadarnhau ffocws galwedigaethol neu drechu rhwystr dysgu sy'n eu hatal rhag cymryd rhan ar unwaith mewn cwrs galwedigaethol neu ddysgu arall ar lefelau 1, 2 neu 3;<br>• Opsiwn hyfforddi lefel 1 i ddysgwyr sy'n canolbwyntio ar alwedigaeth ac sy'n gallu dilyn rhaglen ddysgu ar lefel Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol lefel 1 neu ei gyfatebol; |



P = gwaith paratoi G = gweithredu
C = cwblhawyd GD = gweithgaredd yn dibynnu ar ganlyniad y cam cyntaf

| Rhif | Ymrwymiad | Yr Adran sy'n Arwain | 2011-12 | 2012-13 | 2013-16 | Hynt y gwaith hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | • Opsiwn hyfforddi lefel 2 (y Bont i Gyflogaeth) sy'n cysylltu pobl ifanc sy'n barod i ddechrau gweithio ac sydd wedi cwblhau Lefel 1 ond nad ydynt eto wedi cael swydd neu addysg bellach ar lefel uwch.<br><br>Cafodd Rhaglen Camau at Waith Llywodraeth Cymru ei rhoi ar waith ar 1 Awst 2011 ar gyfer oedolion 18 oed a throsodd. Mae'r rhaglen yn cynnig:<br>• Hyfforddiant sy'n Canolbwyntio ar Waith, lle mae dysgwyr yn dilyn cwrs galwedigaethol ar lefel 1, 2 a 3 er mwyn chwalu'r hyn sy'n eu rhwystro rhag dysgu ac i'w helpu i ddysgu'r amrywiaeth o sgiliau hyblyg sydd eu hangen arnynt i ddechrau gweithio neu i ddilyn cyrsiau eraill neu Lwybrau i Gyflogaeth.<br>• Llwybrau i Gyflogaeth, sy'n cysylltu pobl ifanc sy'n barod i weithio â chyflogwyr sy'n recriwtio neu sy'n arfogi unigolion i ddiwallu anghenion marchnadoedd llafur penodol trwy hyfforddiant arbenigol o hyd at 8 wythnos o hyd.<br><br>Mae AdAS yn bwriadu llunio ystadegau bob chwarter yn ogystal â bob blwyddyn a'u cynnwys mewn Adroddiadau ar Ddeilliannau Dysgwyr. Bydd hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i fonitro deilliannau'r rhaglenni newydd yn fwy effeithiol a phennu targedau realistig ar gyfer darparwyr. |

P = gwaith paratoi G = gweithredu
C = cwblhawyd GD = gweithgaredd yn dibynnu ar ganlyniad y cam cyntaf

| Rhif | Ymrwymiad | Yr Adran sy'n Arwain | 2011-12 | 2012-13 | 2013-16 | Hynt y gwaith hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1/034** | Helpu cyflogwyr i fynd i'r afael â'r costau a'r potensial sy'n cael ei wastraffu oherwydd lefelau isel llythrennedd a rhifedd yn y gweithlu trwy'r Adduned Cyflogwr Sgiliau Sylfaenol. Caiff hyn ei gefnogi gan gronfeydd Ewropeaidd trwy brosiectau newydd Sgiliau Sylfaenol yn y Gweithle a weithredir ar draws Cymru o Hydref 2010 tan fis Medi 2013. Bwriad y prosiectau yw cefnogi dros 1,000 o gyflogwyr a 30,000 o unigolion a gyflogir. | AdAS | G | G | G/C | Lansiwyd rhaglen 'Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle' gan Lywodraeth Cymru ar 8 Chwefror 2012. Mae'n fersiwn ddiwygiedig o Sgiliau Sylfaenol yn y Gweithle a chafodd ei datblygu i symleiddio'r broses ac i wobrwyo darparwyr hyfforddiant am gyrraedd targedau a hefyd ehangu'r ddarpariaeth i gynnwys cymwysterau lefel 2. |



P = gwaith paratoi G = gweithredu
C = cwblhawyd GD = gweithgaredd yn dibynnu ar ganlyniad y cam cyntaf

| Rhif | Ymrwymiad | Yr Adran sy'n Arwain | 2011-12 | 2012-13 | 2013-16 | Hynt y gwaith hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1/037** | Help ar gyfer pobl sydd wedi colli eu gwaith - adeiladu ar raglen lwyddiannus ReAct. | AdAS | G | G | G/C | Mae'r nifer sy'n cymryd rhan yn Rhaglen ReAct Llywodraeth Cymru wedi bod yn gostwng yn raddol ers ei hanterth yn ystod y dirwasgiad gyda'r lefelau gweithgarwch ar hyn o bryd ond ychydig yn uwch nag oedd cyn y dirwasgiad. Mae'r uchafswm a ragwelir fydd yn colli swyddi yn y sector preifat a'r trydydd sector o ganlyniad i'r toriadau yn y sector cyhoeddus heb ddigwydd eto. Fodd bynnag, ni ragwelir y toriadau gwaethaf tan 2012-13 a thu hwnt.<br><br>Profwyd bod y pecyn cymorth ReAct yn gwella siawns rhywun sy'n colli swydd i fynd yn ôl i weithio yn aruthrol. Mae arolwg o'r rheini sydd wedi bod ar raglen ReAct yn cadarnhau hyn ac yn dangos bod 76% ohonynt mewn swydd newydd pan gawsant eu holi.<br><br>Mae'r nifer sy'n manteisio ar wasanaeth Adapt ar ddechrau'r flwyddyn yn parhau'n isel er gwaethaf sawl digwyddiad i godi ymwybyddiaeth. Mae llawer o'r diswyddiadau yn y sector cyhoeddus hyd yn hyn wedi bod ar sail wirfoddol, ac ni fu galw am y pecyn hyfforddi. |

P = gwaith paratoi G = gweithredu
C = cwblhawyd GD = gweithgaredd yn dibynnu ar ganlyniad y cam cyntaf

| Rhif | Ymrwymiad | Yr Adran sy'n Arwain | 2011-12 | 2012-13 | 2013-16 | Hynt y gwaith hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1/038** | Parhau gyda'n hymrwymiad i gynyddu cyfleoedd am brentisiaethau trwy'r rhaglen Llwybrau i Brentisiaethau, gyda ffocws arbennig ar ymgysylltu â chyflogaeth ieuenctid, a mynd i'r afael â diweithdra hirdymor. | AdAS | G | G | G/C | Yn 2011/2012, comisiynodd Llywodraeth Cymru 2,000 o leoedd ar y cynllun Llwybrau at Brentisiaethau (37% yn y De, 33% yn y Gogledd a 30% yn y De Orllewin a'r Canolbarth). Cyhoeddir nifer y dysgwyr a gwblhaodd raglen Llwybrau at Brentisiaethau ac a ymunodd â rhaglen brentisiaeth lawn yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fydd y data perthnasol ar gael. Dyma'r sectorau LlaB ar gyfer 2012-13:<br>• Lantra – y sector amgylcheddol a diwydiannau'r tir gan gynnwys rheoli tir a chynnyrch, iechyd a lles anifeiliaid, diwydiannau amgylcheddol<br>• Sgiliau Adeiladu ac Inswleiddio – pob rhan o'r diwydiant adeiladu, o bensaernïaeth i waith gosod brics<br>• E-sgiliau – TG a Thelegyfathrebu yn ogystal â chanolfannau cyswllt<br>• SkillsActive – y diwydiant hamdden a dysgu ymarferol gan gynnwys chwaraeon a ffitrwydd, yr awyr agored ac antur, gwaith chwarae, gwersylla a charafanio<br>• People 1st – Lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth<br>• SEMTA – sector y technolegau gweithgynhyrchu, peirianneg a gwyddoniaeth<br>• SummitSkills – peirianneg gwasanaethau adeiladu gan gynnwys gwres, awyru, aerdymheru, oeri a phlymio<br>• Sefydliad y Diwydiant Moduro – y sector modurol<br>• Cogent – y diwydiannau polymer, petrolewm a niwcliar, olew a nwy a chynhyrchion fferyllol a chemegol<br>• Improve – cynhyrchu a phrosesu bwyd a diod<br>• Creadigol a Diwylliannol – hysbysebu, crefftau, cerddoriaeth, perfformiad, treftadaeth ddiwylliannol, dylunio, llenyddiaeth a chelfyddydau gweledol<br>Rydym wedi rhoi blaenoriaeth i ddysgwyr LlaB o fewn y contractau Dysgu Seiliedig ar Waith er mwyn gwella'r cyfraddau. |

P = gwaith paratoi G = gweithredu



C = cwblhawyd GD = gweithgaredd yn dibynnu ar ganlyniad y cam cyntaf

| Rhif | Ymrwymiad | Yr Adran sy'n Arwain | 2011-12 | 2012-13 | 2013-16 | Hynt y gwaith hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1/039** | Parhau i ymestyn y rhaglen Recriwtiaid Ifanc mewn ymateb i alw parhaus gan gyflogwyr a phobl ifanc, a'r gobaith yw y bydd 1000 o bobl ifanc yn elwa dros y flwyddyn nesaf. | AdAS | P | G | G/C | Ehangwyd Rhaglen Recriwtiaid Ifanc Llywodraeth Cymru yn 2011-12 gan i bron ddwywaith yn fwy na'r 1000 o ymgeiswyr disgwyledig ymgeisio, gyda 1,995 o geisiadau yn mynd i law cyflogwyr. Roedd Pecyn y Llywodraeth ar gyfer Ysgogi'r Economi yn cynnwys arian ychwanegol ar gyfer y Rhaglen Recriwtiaid Ifanc i helpu i ddelio â'r cynnydd yn nifer y ceisiadau. |
| **1/040** | Rhoi Gwasanaeth Paru Prentisiaeth ar waith fesul cam ar draws Cymru yn ddiweddarach eleni. Bydd y gwasanaeth hwn ar y we yn galluogi prentisiaid posibl i gofrestru ar gyfer prentisiaethau gwag a gwneud cais am brentisiaethau. Bydd cyflogwyr yn gallu cofrestru eu cwmnïau, cysylltu â darparwyr hyfforddiant lleol a hysbysebu prentisiaethau gwag. | AdAS | P/G | G | G/C | Mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i roi'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau ar waith fesul cam ledled Cymru. Bydd y gwasanaeth hwn yn galluogi cyflogwyr i gael hyd i'r union berson iawn sydd eu hangen arnynt i lenwi prentisiaeth. Mae hwn yn e-wasanaeth di-dâl. Bydd cyflogwyr yn hysbysebu'u gofynion ar y we a bydd Gyrfa Cymru yn gallu eu helpu i gael hyd i'r person iawn o gronfa ddata o CVs, nodweddion ac uchelgeisiau gyrfa pobl ifanc. Hyd at fis Mehefin 2012, roedd 1182 o swyddi wedi'u hysbysebu trwy'r Gwasanaeth. |

P = gwaith paratoi G = gweithredu 
C = cwblhawyd GD = gweithgaredd yn dibynnu ar ganlyniad y cam cyntaf

| Rhif | Ymrwymiad | Yr Adran sy'n Arwain | 2011-12 | 2012-13 | 2013-16 | Hynt y gwaith hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1/041** | Parhau i gryfhau a datblygu Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) i gefnogi ymdrechion mudiad yr undebau llafur i annog cyflogwyr a gweithwyr i gymryd rhan mewn hyfforddiant. Mae WULF wedi helpu dros 10,000 o weithwyr ar draws Cymru i gael mynediad i ddysgu a chaffael sgiliau newydd. | AdAS | G | G | G/C | Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi ymdrechion yr undebau llafur i annog cyflogwyr a gweithwyr i dderbyn hyfforddiant trwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) ac mae 14,587 o gyflogeion wedi'u helpu yn 2011-12.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r undebau ganolbwyntio ymdrechion y Gronfa ar wella sgiliau sy'n hanfodol i'r gweithle yn y rownd ddiweddaraf o brosiectau WULF y cytunwyd arni ym mis Chwefror 2011. Mae pob prosiect yn para hyd at 3 blynedd a'i nod yw helpu undebau i ddatblygu atebion i broblemau dysgu ar gyfer y gweithle. Mae oes 3 blynedd y prosiectau hyn wedi helpu undebau a'u cynrychiolwyr i gynnal y sbardun dysgu gafodd ei greu gan y prosiectau. |
